# Materion Gwasanaeth Cwsmeriaid

## Gwasanaethau Oedolion a Busnes

| Pan fyddwch chi'n | Mi fyddwn ni'n |
|---|---|
| Cael eich asesu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>(mae asesiad yn drafodaeth rhwng rhywun o'r gwasanaethau cymdeithasol a chi [y cwsmer] i gael darlun o'r help yr ydych efallai ei angen) | Eich cynnwys yn eich asesiad. Byddwch yn cael eich annog i esbonio eich barn am eich sefyllfa a byddwn yn gwrando ar sut yr ydych am i'ch anghenion gael eu cwrdd |
| Cael eich asesu fel bod angen pecyn cefnogaeth<br><br>(mae pecyn cefnogaeth yn rhoi manylion am y gefnogaeth sy'n cael ei darparu i'ch helpu) | Ystyried eich barn wrth lunio pecyn cefnogaeth i gwrdd â'ch anghenion cymwys |
| Derbyn pecyn cefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol | Cysylltu â chi bob blwyddyn i wirio:<br><br>• sut mae'r gwasanaethau yn diwallu eich anghenion,<br>• os ydynt yn gwella ansawdd eich bywyd, ac<br>• a ydych yn fodlon ar y gwasanaethau yr ydych yn eu derbyn. |

Unrhyw beth yr hoffech ei ddweud wrthym ni?
Rhowch wybod i ni os ydych chi'n credu ein bod ni wedi gwneud rhywbeth o'i le neu wedi gwneud camgymeriad. Byddem hefyd yn hoffi gwybod os ydych chi'n credu ein bod ni wedi gwneud rhywbeth yn dda, neu os oes gennych chi sylw neu syniad ynghylch sut gallem ni wneud rhywbeth yn wahanol neu'n well.

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

Rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost at eich.llais@sirddinbych.gov.uk neu ffonio 01824 706100.

Neu fe allwch chi lenwi ffurflen ar ein gwefan yn www.sirddinbych.gov.uk